Peiriannydd Profi Iau

Cyflog: £27,807 - £30,162 y flwyddyn (Gradd 5)
Math o gontract: Amser llawn (36.5 awr yr wythnos), parhaol

Yr her
Yn CBAC, rydym yn cyfrannu at ein cymunedau addysg drwy ddarparu cymwysterau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol, fel y gall ein dysgwyr gael y cyfle i gyrraedd eu potensial yn llawn. Dyma gyfle gwych felly i fod yn rhan o gorff sy'n annog ac yn gwella meddyliau'r dyfodol.

Y rôl
Mae hwn yn gyfle delfrydol i rywun sy'n dechrau gyrfa yn y maes TG, gan alluogi'r deiliad swydd i ddatblygu profiad o gylchredau datblygu TG. Ar ôl hyfforddiant, bydd y Peiriannydd Profi Iau yn dylunio ac yn datblygu strategaethau ar gyfer gwella ansawdd meddalwedd a systemau trwy brofi'r holl ddatblygiadau meddalwedd ar draws y corff (gan gynnwys systemau mewnol e.e. iSeries, ac ein llwyfannau penodol i ganolfannau a phenodedigion), gan gadw at y safonau, canllawiau, a'r cynlluniau prawf priodol. Byddant hefyd yn chwarae rhan allweddol mewn projectau meddalwedd mawr gan weithio ar y cyd â rhanddeiliaid ar draws y corff i sicrhau bod y datrysiadau yn bodloni anghenion y busnes.

Amdanoch chi
I ffynnu yn y rôl hon, byddwch chi'n unigolyn trefnus sy'n gallu talu sylw i'r manylion yn dda wrth weithio ar sawl tasg ar yr un pryd. Byddwch chi'n unigolyn sy'n dysgu eich hun yn gyflym gyda sgiliau cyfathrebu cryf, a'r hyder i ofyn cwestiynau sy'n cefnogi eich dysgu a'ch datblygiad. Byddwch chi'n gallu gweithio gan ddefnyddio eich menter eich hun, ond byddwch chi yr un mor hyderus yn cydweithio ag eraill yn rhan o dîm, gan rannu gwybodaeth ac arbenigedd yn ôl y galw. Byddai profiad blaenorol o weithio mewn amgylchedd TG yn ddefnyddiol ond nid yw'n hanfodol ar gyfer y rôl.

Buddion
Yn CBAC, rydym yn falch o fod yn lle cynhwysol a chefnogol i weithio. Rydym hefyd yn cynnig amrywiaeth o fuddion ardderchog, gan gynnwys: 25 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn (yn ogystal ag 16 o wyliau statudol / ychwanegol), gwersi Cymraeg am ddim, cynllun pensiwn cystadleuol a nifer o bolisïau sy'n ystyriol o deuluoedd. Gall dilyn gyrfa gyda CBAC fod yn hynod o werthfawr a byddwch chi'n cael eich annog i ddilyn y cyfleoedd gwych sydd ar gael i ddatblygu eich sgiliau, yn broffesiynol ac yn bersonol.

Os hoffech wybod mwy am y rôl hon, neu am weithio yn CBAC, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â'n tîm Adnoddau Dynol (AD@cbac.co.uk). Byddan nhw'n fwy na pharod i helpu.

Dyddiad cau: 09:00; dydd Llun 09 Rhagfer 2024

245 Western Avenue, Cardiff CF5, 2YX
Tel 029 2026 5002 / 5189 / 5015
www.wjec.co.uk

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y swydd:	Peiriannydd Profi Iau
Adran:	Datblygu Gwasanaethau Gwybodaeth a Thechnoleg
Isadran:	Gwasanaethau profi
Yn atebol i:	Peiriannydd Profi Arweiniol
Gradd:	5
Lleoliad:	Rhodfa'r Gorllewin

Prif bwrpas y Swydd:

Bydd y Peiriannydd Profi Iau yn gyfrifol am wella ansawdd meddalwedd a systemau drwy brofi'r holl ddatblygiadau meddalwedd ar draws y corff. Bydd deiliad y swydd yn sicrhau ei fod yn cadw at y safonau, canllawiau, cynlluniau profi a phroses cyflawni profion, ar y cyd â'r Peiriannydd Profi Arweiniol, yr adran Datblygu TG a chydweithwyr Dadansoddwyr Busnes. Gan gydweithio'n agos â rhanddeiliaid mewnol, bydd y rôl yn cynnwys lleihau gwallau datblygu, gwella ansawdd, ac annog perchnogaeth ar y gwasanaethau a ddarperir ar draws y corff. Bydd deiliad y swydd hefyd yn chwarae rhan yn y gwaith o gyfrannu at brojectau meddalwedd mawr, gan sicrhau bod datrysiadau'n diwallu anghenion y busnes.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Cyffredinol

- Cydweithio â'r Peiriannydd Profi Arweiniol i sicrhau ansawdd y gwaith a bod y broses o adrodd am faterion yn cael ei chynnal a'i dogfennu, gan weithio yn aml yn rhan o dîm amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr ac ar ddylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr.
- Cydweithio â datblygwyr ac arbenigwyr pwnc, gan ddadansoddi cyfnewidiadau rhwng defnyddioldeb ac anghenion perfformiad.
- Bod yn ymwybodol o gwmpas, dulliau, risgiau a thybiaethau profi ar draws DevOps a phrofi ystwyth.

Sgriptio

- Ar y cyd â'r Peiriannydd Profi Arweiniol a'r Arweinwyr Gwasanaeth Datrysiadau, Datblygwyr a'r tîm Dadansoddwyr Busnes, adolygu dogfennau Gofynion a Dylunio Technegol i ddeillio Sgriptiau Profi â Llaw a Theithiau Defnyddwyr yn unol â manylebau datblygu.
- Gyda chefnogaeth y Peiriannydd Profi Arweiniol, sicrhau bod Sgriptiau Profi yn fanwl, yn gynhwysfawr ac wedi'u strwythuro a'u dogfennu'n dda yn unol â phrosesau'r Tîm Profi.
- Cael profiad o nodi, cofnodi, dogfennu ac olrhain bygiau gan ddefnyddio'r system Rheoli Profion (Xray yn Jira ar hyn o bryd), i leihau risgiau i CBAC.
- Gyda chymorth y Peiriannydd Profi Arweiniol, gosod data profi, amcangyfrif gweithgareddau profi a chyfrannu at ddogfennau Profi.
- Cymryd rhan ym mhob un o'r cyfnodau profi a'r gweithgareddau profi (e.e. profion Atchwel, Derbyniad Defnyddwyr ac Archwiliadol) mewn project datblygu.
- Gweithio gyda'r Peiriannydd Profi Arweiniol i awtomeiddio Sgriptiau Profi gan ddefnyddio technoleg cod agored.
- Cynorthwyo â'r gwaith o ddefnyddio egwyddorion profi awtomataidd i wella effeithlonrwydd, ansawdd a lleihau amser i Fusnes yn ôl yr Arfer (BAU)

Ystwyth

- Cael profiad ymarferol o gynnal profion yn rhan o brojectau Ystwyth, gyda dealltwriaeth o'r cylchredau oes Sbrint, integreiddio di-dor a phrofion rhyddhau.

Dull Profi

- Bod yn ymwybodol o allbynnau profi a chyflawni cerrig milltir profi yn ystod project.
- Gweithio mewn amgylchedd Ystwyth yn ystod pob cyfnod profi project.
- Bod yn ymwybodol o ffyrdd eraill o brofi fel y gellir dewis y strategaeth brofi fwyaf effeithiol â'r Peiriannydd Profi Arweiniol a chytuno arni.
- Cydweithio â'r Peiriannydd Profi Arweiniol i nodi a rhoi dulliau/meddalwedd profi ar waith i gynorthwyo a gwella'r prosesau profi a'r gwaith o'u gweithredu.
- Gyda chefnogaeth y Tîm Gwasanaeth Datrysiadau, meddu ar ddealltwriaeth gyfoes o sylfaen technoleg presennol CBAC, tueddiadau'r diwydiant a'r safonau sy'n newydd i'r maes, e.e. AWS, SQL, iSeries, Talend, Bitbucket.

Arall

- Deall a chydymffurfio â holl bolisïau a gweithdrefnau CBAC a nodir yn y Llawlyfr Staff; yn benodol, sicrhau eich bod yn deall eich rôl a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â Diogelu, Diogelwch Gwybodaeth, GDPR, Cyfrinachedd, yr iaith Gymraeg ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.
- Cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi egwyddorion ac arfer cydraddoldeb cyfle fel y'i nodir ym Mholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CBAC, gan ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhob project, polisi ac arfer.
- Bod yn aelod rhagweithiol o'r tîm, gan gyfrannu'n gadarnhaol at gyfarfodydd a phrojectau i gefnogi nodau ac amcanion CBAC.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu personol a phroffesiynol sy'n berthnasol i'r rôl.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill yn ôl y galw sy'n gymesur â gradd y swydd

Manyleb y Person

Teitl y swydd:	Peiriannydd Profi Iau
Adran:	Datblygu Gwasanaethau Gwybodaeth a Thechnoleg

Meini prawf hynod ddymunol yw'r sgiliau a'r profiad gorau posibl a fydd gan yr ymgeisydd yn ddelfrydol, ond nid oes disgwyl i ymgeiswyr fodloni pob un o'r rhain. Meini prawf dymunol yw'r rhai a fyddai'n ychwanegu gwerth at y swydd os ydynt ar gael, gan gynnwys hefyd potensial am dwf a datblygiad yn y rôl.

Sgiliau a Galluoedd

Hynod Ddymunol

- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol a'r gallu i ryngweithio'n broffesiynol â grŵp amrywiol. Y gallu i symleiddio materion cymhleth neu dechnegol i gynulleidfa nad yw'n un arbenigol.
- Y gallu i gynllunio a blaenoriaethu eich gwaith eich hun.
- Sylw ardderchog i fanylion gyda sgiliau dadansoddi a datrys problemau cryf.
- Y gallu i weithio'n annibynnol yn ogystal â bod yn aelod o dîm.
- Y gallu i ddeall a dehongli gofynion a diagramau technegol, gyda'r arweiniad priodol.
- Menter dda, gyda'r awydd i ddysgu'n annibynnol ac yn hunan-gymhellol.

Dymunol

- Yn gallu defnyddio ieithoedd rhaglennu fel Ruby, Python neu JavaScript.
- Sgiliau awtomeiddio profion
- Gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg

Gwybodaeth

Hynod Ddymunol

- Gweithio tuag at ddealltwriaeth o egwyddorion Sicrhau Ansawdd a Phrofi.
- Dealltwriaeth o arholi a systemau phrosesau arholi
- Dealltwriaeth neu wedi dod i gysylltiad ag un neu fwy o'r canlynol:
  - Dealltwriaeth o fframweithiau datblygu meddalwedd (er enghraifft amgylcheddau IBM i-series, JAVA, .Net ac ati).

Dymunol

- dealltwriaeth sylfaenol neu wedi dod i gysylltiad ag un neu fwy o'r canlynol:
  - Ymwybyddiaeth a/neu brofiad o safonau profi fel ISO/IEC 29119, IEEE neu BS-7925
  - Bod yn ymwybodol o isadeiledd, gwasanaethau ac arferion gorau seiliedig ar y cwmwl.
  - Gwybodaeth am iaith ymholiadau strwythuredig (SQL).
  - Profiad o ddefnyddio proses datblygu safonau a dulliau profi fel Visual Studio Code, Bitbucket a Git, Jira a Confluence ac ati.

Profiad

Hynod Ddymunol

- Profiad o'r gylchred oes datblygu meddalwedd.
- Profiad o gymhwyso methodolegau datblygu meddalwedd.

Dymunol

- Bod yn ymwybodol o'r gylchred oes diffygion meddalwedd.
- Profiad o brofi meddalwedd a systemau.

Hyfforddiant / Cymwysterau

Hynod Ddymunol

- Cymhwyster gradd.
- Cymwysterau Profi Meddalwedd ISTQB/ISEB

Gofynion Eraill

Hynod Ddymunol

- Agwedd hyblyg ac addasadwy tuag at waith.

Telerau ac Amodau Gwasanaeth		Terms and Conditions of Service	
Teitl y Swydd/ Job Title:	Peiriannydd Profi Iau/ Junior Test Engineer		
Cyflog/ Salary:	£27,807 - £30,162 y flwyddyn / per annum	**Gradd/ Grade:**	5
Gwyliau Blynyddol/ Annual Leave:	25 Diwrnod y flwyddyn. Mae CBAC yn caniatáu 16 o ddyddiau statudol / ychwanegol o wyliau yn ogystal ar hyn o bryd Pro rata. 25 Days per annum. In addition, the WJEC currently allows 16 statutory / additional holidays. Pro rata.		
Pensiwn/ Pension:	Gweithredir darpariaeth y Ddeddf Bensiwn Llywodraeth Leol. The provision of the Local Government Superannuation Act apply.		

Math o Gytundeb:	**Contract Type:**
☒ Llawn amser / Full Time	
☐ Rhan amser / Part Time	**Nifer yr oriau yr wythnos** **No. of hrs per week**
☐ Llawn amser Tymor Cyfyngedig / Full Time Limited Term	**Diwedd y Tymor** **End of Term**
☐ Rhan amser Tymor Cyfyngedig / Part Time Limited Term	**Diwedd y Tymor** / / **End of Term** **Nifer yr oriau yr wythnos** **No. of hrs per week**

Dull Ymgeisio:	**Method of Application:**

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ar e-bost at ad@cbac.co.uk erbyn **09:00; dydd Llun 09 Rhagfer 2024**.

Completed forms should be sent by email to hr@wjec.co.uk by **09:00; Monday 09 December 2024**.